## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (MAN I'R DWYRAIN O GYLCHFAN BRYNICH I FAN I'R DE-DDWYRAIN O LANHAMLACH, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(2), 124(1)(d) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 30 Ionawr 2026.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder o 50mya ar y darn o
gefnffordd yr A40 o bwynt 37 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ildio wrth allanfa'r A40 oddi ar Gylchfan Brynich tuag at Bowys, hyd at bwynt 181 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt cyffordd ffordd yr C0107 i Bennorth.

Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanhamlach, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2018 (O.S. 2018/491 (Cy. 83)) wedi ei ddirymu gan y Gorchymyn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Ionawr 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog a Llyfrgell Aberhonddu, Glamorgan Street, Aberhonddu, Powys LD3 7DW.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2377668.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymruneu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion,Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQgan ddyfynnu'r cyfeirnodqA2377668.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (EAST OF BRYNICH ROUNDABOUT TO SOUTHEAST OF LLANHAMLACH, POWYS) (50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2), 124(1)(d) and 124(3)(b) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 30 January 2026.

The effect of the Order is to introduce a 50mph speed limit on the length of the A40 trunk road from a point 37m east of the give way line at the A40 exit off Brynich Roundabout towards Powys, to a point 181m southeast of the centre-point of the C0107 road to Pennorth junction.

The A40 Trunk Road (Llanhamlach, Powys) (50 mph Speed Limit) Order 2018 (S.I. 2018/491 (W. 83)) is revoked by the Order.

During a period of 6 weeks from 27 January 2026, a copy of this Notice, the made Order, plan and Statement of Reasons can be inspected, free of charge, at the Brecon Museum, Art Gallery & Library, Y Gaer, Glamorgan Street, Brecon, LD3 7DW.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2377668.

**A copy of this Notice, the made Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2377668.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government